




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Gorffennaf 2019

**PC 42: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
safleoedd a neilltuwyd**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partiön; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg safleoedd a neilltuwyd yn Strategaeth a Ffafrir Conwy 2018-33

**Crynodeb lefel uchel o gasgliadau o'r aseiad o'r effaith ar y
Gymraeg ar gyfer y pum safle a neilltuwyd**

Gorffennaf 2019



Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Amlinelliad o'r Safleoedd Strategol yn y Strategaeth a Ffafrir	3-4
3. Asesiad lefel uchel o'r Gymraeg, yn ôl safleoedd	4
Ardal Datblygu'r Arfordir – Gorllewin	4
Ardal Datblygu'r Arfordir – Creuddyn	6
Ardal Datblygu'r Arfordir – Canolog	9
Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir - Dwyrain	10
Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig – Llanrwst ac eraill	10



Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Crynodeb lefel uchel o gasgliadau ar gyfer asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y pum safle a neilltuwyd

Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Conwy) yn datblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer y cyfnod 2018-33. Fel rhan o'r Gwerthusiad o'r Strategaeth, mae'n ofynnol i'r Fwrdeistref Sirol gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar ei gynigion. Felly, cyn cyhoeddi'r Strategaeth a Ffafir ym mis Gorffennaf 2019, comisiynwyd Ymgynghoriaeth RHD Cyf i gynnal dadansoddiad o'r newidiadau deddfwriaeth a pholisi ers y CDLI blaenorol, adolygu polisi cynllunio'r Gymraeg i Gyngor Conwy a chwblhau asesiad lefel uchel o'r effaith ar y Gymraeg ar y Strategaeth a Ffafir.

Mae asesiad lefel uchel o'r effaith ar y Gymraeg wedi'i baratoi ar gyfer y Strategaeth a Ffafir a chaiff ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.

Mae'r papur hwn yn darparu crynodeb lefel uchel o'r uchod, sy'n amlinellu'r pum safle a gynigiwyd yn y Strategaeth a Ffafir yn ogystal â chyflwyno'r casgliadau lefel uchel ar yr asesiadau unigol o'r effaith ar y Gymraeg sy'n ofynnol fel y camau nesaf.

Safleoedd Strategol

Mae Polisi Strategol 11 o fewn Amcan Strategol Strategaeth a Ffafir Conwy (2019) yn rhestru'r safleoedd strategol sydd wedi'u neilltuo yn y cynllun i'w datblygu – tai, masnachol a defnydd cymysg.

Gweler y tabl isod am grynodedd o'r 5 safle strategol:

Polisi Strategol 11 (SP/11): Safleoedd Strategol

Cyflawni gofynion twf y dyfodol yn rhannol, adlewyrchu'r tir cyfyngedig iawn i'r dwyrain o'r Fwrdeistref Sirol a chyfrannu'n gadarnhaol at Fargen Twf y Gogledd, cynigir pum Safle Strategol Allweddol* mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch, wedi'u cefnogi gan y seilwaith gofynnol a'u cyflwyno'n raddol yn ystod Cyfnod y Cynllun:

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir (CDSA):

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

1. Llanfairfechan – Tai Defnydd Cymysg (400 o Dai), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, Rhandiroedd a Gofod Hamdden. Bydd y safle'n cael ei adeiladu rhwng 2021 a 2029
2. Llanrhos – Tai Defnydd Cymysg (250 o Dai), Tai Fforddiadwy, Ysgol Gynradd, 1 Hectar o Dir Cyflogaeth B1, Rhandiroedd a Gofod Hamdden. Bydd y safle'n cael ei adeiladu rhwng 2024 a 2031.
3. Hen Golwyn – Tai (450 o Dai), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd a Gofod Hamdden. Bydd y safle'n cael ei adeiladu rhwng 2024 a 2033.
4. Abergele – Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8), Manwerthu, Gofod Hamdden ac Ysgol Gynradd. Bydd y safle'n cael ei adeiladu rhwng 2021 a 2027.

Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig (RDSA)

5. Canolfan Gwasanaeth Allweddol Llanrwst – Tai (200 o Dai), Tai Fforddiadwy, Rhandiroedd a Gofod Hamdden. Bydd y safle'n cael ei adeiladu rhwng 2021 a 2026.

* Cefnogir pob Safle Strategol Allweddol gan Asesiad Hyfywedd, Asesiadau Safle a Darluniau Cysyniadau. Bydd pob Safle Strategol yn cael ei gefnogi gan Weledigaeth Creu Lleoedd, Egwyddorion Dylunio a Briffiau Datblygu.

Asesiad lefel uchel o'r Gymraeg, yn ôl safleoedd

Cafodd pob un o'r pum safle eu dadansoddi yn eu tro, i benderfynu a oedd angen asesiad o effaith mwy cynhwysfawr. Wrth lunio ein casgliadau, fe wnaethom dynnu ar bolisi cenedlaethol, deddfwriaeth a thystiolaeth ddogfennol arall, er enghraifft: Polisi Cynllunio Cymru, TAN 20 (2017), Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005), Polisi Cynllunio'r Gymraeg Conwy, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Cymraeg 2050, data Cyfrifiad 2011 Swyddfa Ystadegau Gwladol, Safonau'r Gymraeg Conwy a strategaeth iaith Gymraeg Conwy.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Gorllewin

Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg newydd yn Llanfairfechan a fydd yn cynnwys 400 o dai newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd a gofod hamdden. Mae'r dull o roi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol wedi golygu bod capasiti yn y cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth, draeniau a'r Feddygfa. Fodd bynnag, mae angen gwella'r llwybrau teithio llesol a llwybrau mwy diogel i ysgolion o'r ardaloedd preswyl ehangach yn Llanfairfechan. Mae bwriad i adeiladu Ysgol Gynradd Band-B newydd hefyd rhwng 2020 a 2024. Mae'r effaith ar y lefel dwf wedi'i hystyried a'i hadlewyrchu ym maint priodol yr ysgol.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Mae'r ardal strategol hon wedi'i lleoli ym mhegwn gorllewin Ardal Gynllunio'r CDLIN, sydd wedi'i gwahanu oddi wrth ardal Creuddyn gan benrhyn Penmaenbach ac i'r dde mae Parc Cenedlaethol Eryri. Llanfairfechan a Phenmaenmawr yw'r ddau setliad trefol yn yr ardal strategaeth ac maent yn hunangynhwysol ar y cyfan, gyda lefel dda o gyfleusterau a gwasanaethau.

Mae Llanfairfechan a Phenmaenmawr yn ardaloedd â sensitifrwydd ieithyddol yng Nghonwy, gyda 46.7% a 33.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, yn y drefn honno - sy'n uwch na'r boblogaeth genedlaethol o 19%. Mae'r ardal hon y drws nesaf i Barc Cenedlaethol Eryri, lle mae canrannau uchel o'r boblogaeth yn Gymraeg eu hiaith.

Er mwyn adlewyrchu lefelau'r boblogaeth, y gwasanaethau a'r cyfleusterau, hygyrchedd da a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r dosbarthiad twf wedi'i addasu o'r Dwyrain, bydd 10% o'r twf tai (y farchnad a fforddiadwy) wedi'u lleoli yn Ardal Strategol y Gorllewin, gan gynnwys tai a gwblhawyd, caniatadau, hap-safleoedd a dyraniadau newydd. O ganlyniad i dopograffeg a'r tir sydd ar gael ym Mhenmaenmawr, bydd y mwyafrif o dai newydd wedi'u lleoli yn Llanfairfechan ei hun, sydd â mynediad rhagorol i'r rhwydwaith rheilffordd a ffyrdd strategol a'r setliadau trefol trefn ehangach.

Mae gan yr ysgol yn Llanfairfechan broblemau o ran capasiti ar hyn o bryd a'r bwriad yw adeiladu ysgol newydd Band B rhwng 2019 a 2024. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hefyd yn ymrwmo i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r categorïau o ysgolion – i ddarparu mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni twf a thai newydd, cynigir safle strategol defnydd cymysg newydd yn Llanfairfechan, sy'n cynnwys 400 o dai newydd, tai fforddiadwy, ysgol gynradd newydd a gofod hamdden. Bydd angen gwneud gwelliannau i bedestreiddio ardal o'r ardal breswyl ehangach a gwella'r llwybrau teithio llesol er mwyn cynnal cynaliadwyedd y safle strategol a'r ardal.

Oherwydd yr ardaloedd â sensitifrwydd ieithyddol yn Ardal y Cynllun yn ogystal â maint y datblygiad, mae angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn unol â TAN 20 yn ogystal â Safonau'r Gymraeg, sy'n galw am asesiad o'r effaith i'r effeithiau cadarnhaol a niweidiol a chyfleoedd i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Wrth gynnal yr asesiad o'r effaith, bydd yn gyfle i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â lliniaru unrhyw effeithiau andwyol o'r datblygiad yn Llanfairfechan a'i hardaloedd cyfagos.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Mae angen i'r asesiad ystyried sut y mae'r rhandiroedd yn cael eu datblygu a bod unrhyw gynlluniau cymdeithasol a hamdden eraill yn ardal y Cynllun yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

Wrth gynllunio i ddatblygu'r ysgol, bydd angen i'r asesiad o'r effaith ystyried yr effaith ar y Gymraeg a'r cyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn y Cynllun Strategol Addysg a Strategaeth y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghonwy 2%.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Creuddyn

Cynigir Safle Strategol defnydd cymysg yn Llanrhos rhwng setliadau trefol Cyffordd Llandudno a Llandudno sy'n cynnwys 250 o dai newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy), tua 1 hectar o B1 (swyddfeydd) i hyrwyddo defnyddiau cyflogaeth clwstwr, ysgol gynradd newydd, rhandiroedd a gofod hamdden. Mae'r ardal yn cael ei chydabod hefyd fel ardal sydd angen gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, y seilwaith teithio llesol a gwyrdd, a fydd yn cael eu datblygu drwy Friff Datblygu cynhwysfawr. Bydd y gwaith ar y Safle Strategol yn dechrau o 2024 ymlaen er mwyn sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 'Band C'.

Creuddyn, Llandudno, Cyffordd Llandudno a Chonwy yw'r prif setliadau trefol yn yr ardal hon, sy'n cyflawni rôl ddiwylliannol, gymdeithasol ac economaidd bwysig i Ardal y Cynllun. Mae gan Gonwy boblogaeth o 27.3% o siaradwyr Cymraeg (3,901) ac mae gan Llandudno 20.3% (4,079) ac mae'r ddwy ardal yn ardaloedd â sensitifrwydd ieithyddol yn yr ardal CDLI hon (fel y'i diffinnir gan y trothwy yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen, 2005).

Oherwydd y cysylltiadau trafnidiaeth rhagorol a lleoliadau strategol y trefi hyn, mae'r Strategaeth a Ffafrir yn rhagweld twf yn y trefi hyn:

- Yn ystod Cyfnod y Cynllun rhagwelir y bydd tua 30% o'r twf tai (y farchnad a fforddiadwy) wedi'u lleoli yn Ardal Strategol Creuddyn, gan gynnwys tai a gwblhawyd, caniatadau, hap-safleoedd a dyraniadau newydd.
- Er mwyn sicrhau bod anghenion casgliadau Adroddiad Dadansoddi Marchnad Fasnachol Conwy yn cael eu cyflawni, bydd yr ardal hefyd yn cynnig tua 30% o dir cyflogaeth a fydd yn cynnwys lleoliadau wedi'u cwblhau, caniatadau, hap-safleoedd a dyraniadau newydd.

Cynigir safle strategol defnydd cymysg yn Llanrhos rhwng setliadau trefol Cyffordd Llandudno a Llandudno sy'n cynnwys 250 o dai newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy), 1 hectar o B1 (swyddfeydd) i hybu defnydd cyflogaeth clwstwr, ysgol gynradd newydd a gofod hamdden.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Mae'r ardal yn cael ei chydabod hefyd fel ardal sydd angen gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, y seilwaith teithio llesol a gwyrdd, a fydd yn cael eu datblygu drwy Friff Datblygu cynhwysfawr. Bydd y gwaith ar y Safle Strategol yn dechrau o 2024 ymlaen er mwyn sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion 'Band C'. Mae'r safle strategol wedi'i gefnogi gan fynediad gwych at yr A470 a'r A55 a dulliau amgen o'r setliadau trefol lefel uwch.

Oherwydd maint y cynnig (mwy na 10 uned a 10,000 metr sgwâr) yn golygu bod angen asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar y safle hwn sydd wedi'u neilltuo yn y Strategaeth a Ffafrir, yn unol â chanllawiau TAN 20.

Mae Llandudno a Chonwy ymhlith y prif setliadau trefol yn yr Ardal hon o'r Cynllun. Mae gan Gonwy boblogaeth o 27.3% o siaradwyr Cymraeg (3,901) ac mae gan Llandudno 20.3% (4,079) ac maent yn ardaloedd â sensitifrwydd ieithyddol oherwydd y canrannau (sy'n cael ei ddiffinio gan bolisi cynllunio'r Gymraeg Conwy a'i dywys gan y trothwy yng Nghynllun y Gymraeg, 2005). At hynny, mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yn gyffredinol i Gonwy ac yn genedlaethol.

Er bod y safle defnydd cymysg sy'n cael ei gynnig yn Llanrhos, mae wedi'i leoli'n strategol ger Conwy sy'n ardal sensitif yn ieithyddol, lle mae 27.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a Llandudno sy'n ardal sy'n bwysig yn strategol, lle mae 20.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae cymunedau eraill gerllaw e.e. Mochdre, Deganwy, lle mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r gyfradd genedlaethol; ac felly, mae'r ardal gyfan yn strategol bwysig.

Fel yr argymhellir yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005) mae hyn yn galw am asesiad o effaith.

Mae angen i'r asesiad ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol i'r ardal ehangach sy'n amgylchynu'r safleoedd sydd wedi'u neilltuo i'w datblygu. Gall datblygiadau cyflogaeth a thai gael effeithiau yn yr ardal leol ac yn ehangach na'r gytref y mae'r cyflenwad adeiladu yn cael ei neilltuo. Mae angen i'r asesiad hwn ystyried yr effaith bosibl ar fudo i a mudo o ardaloedd Cymraeg eu hiaith a phan ganfyddir hyn, pennu mesurau lliniaru. Gallai rhai o'r dulliau lliniaru posibl gynnwys hyfforddiant a chefnogaeth i bobl leol gael mynediad at, a sicrhau cyflogaeth newydd sy'n cael ei darparu'n lleol. Gellir defnyddio cytundebau Adran 106 hefyd i ariannu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned er mwyn atgyfnerthu lleoedd cynaliadwy a gwydn.

Bydd yr asesiad hefyd yn nodi'r posibilrwydd i'r ardal hon hyrwyddo a chefnogi defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg yn y dyfodol, gan gynnwys rhoi cynlluniau ar waith i gefnogi gweithgareddau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg yn y datblygiadau newydd a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg o ardaloedd cyfagos i gael mynediad at y cyfleoedd hyn a'u defnyddio.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Bydd yr asesiad hefyd yn cynnwys ystyriaeth i'r ddarpariaeth ysgolion arfaethedig a sut y bydd hyn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a chyfrannu at strategaeth iaith Gymraeg Conwy i gynyddu'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol o 2% yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Canolog

Safle Strategol i'r de o Hen Golwyn sy'n cynnwys 450 o dai newydd, rhandiroedd a gofod hamdden. Bydd y Safle Strategol yn cael ei gyflwyno o 2024 ymlaen i ystyried Effeithiau Ysgol Band C. Mae'r dull o roi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol wedi golygu y gallai fod angen gwneud gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd ehangach, gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau teithio llesol gwell. Mae gwaith Modelu Hydrolig yn mynd rhagddo hefyd i benderfynu a fydd angen gwneud gwaith i wella capasiti'r cyflenwad dŵr a'r seilwaith carthffosiaeth/draeniau.

Yn ystod Cyfnod y Cynllun, rhagwelir y bydd tua 35% o'r twf tai (y farchnad a fforddiadwy) wedi'u lleoli yn yr Ardal Strategol Ganolog gan gynnwys tai a gwblhawyd, caniatadau, hap-safleoedd a dyraniadau newydd.

Er mwyn sicrhau bod anghenion casgliadau Adroddiad Dadansoddi Marchnad Fasnachol Conwy yn cael eu cyflawni, bydd yr ardal hefyd yn cynnwys tua 10% o dir cyflogaeth gan gynnwys tai a gwblhawyd, caniatadau, hap-safleoedd a dyraniadau newydd.

Mae Bae Colwyn yn gwasanaethu anghenion preswyl, manwerthu ac economaidd y dalgylch amgylchynol ac mae'n parhau i brofi buddsoddiad a gwelliannau sylweddol i ganol y dref a blaen y traeth. Mae wedi'i lleoli ar hyd y rhwydwaith rheilffordd a ffyrdd strategol ac mae'n cael ei gwasanaethu'n dda gan ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus ac amgen,

I barhau i fuddsoddi ac adfywio'r ardal ymhellach yn ystod Cyfnod y Cynllun, mae safle strategol i'r de o Hen Golwyn sy'n cynnwys 450 o dai newydd a mannau hamdden wedi'i neilltuo.

Bydd y safle strategol yn cael ei gyflwyno o 2024 ymlaen a bydd wedi'i hategu gan welliannau i briffyrdd, gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau teithio llesol gwell.

Efallai y bydd angen i'r gwelliannau i'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos alw am waith ail-ddatblygu er mwyn darparu ar gyfer twf yn ystod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Band C o 2024 ymlaen o ganlyniad i dwf tai.

Bydd manwerthu cyfleus a thebyg hefyd yn cael ei hyrwyddo ym Mae Colwyn er mwyn cyflawni anghenion Astudiaeth Manwerthu Conwy.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Mae Pentref Haen 2 Llysfaen hefyd wedi'i leoli o fewn yr Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir, oherwydd ei berthynas â Hen Golwyn, ac mae gan Bentrefan Bryn y Maen gysylltiad agos â Bae Colwyn, fodd bynnag mae cynaliadwyedd y setliadau hyn wedi'i gyfyngu gan y cysylltiadau strategol i'r prif ffyrdd a'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y dull polisi tuag at y setliadau hyn yn ystod Cyfnod y Cynllun yn cael ei hysbysu gan eu safle yn yr hierarchaeth setliadau, gyda'r lefel twf yn adlewyrchu anghenion lleol a'r amrediad presennol o gyfleusterau a gwasanaethau a gynigir ganddynt.

Mae'r ardal hon yn cynnwys nifer o ardaloedd â phwysigrwydd strategol i'r iaith Gymraeg. Er enghraifft Mochdre (22.5%), Hen Golwyn, (21.9%) a Llysfaen (21.1%), lle mae canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn Hen Golwyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol i'r Sir, gyda 1,719 yn gallu siarad Cymraeg yn ardal y cyngor cymuned, ac mae Llandrillo-yn-rhos hefyd yn ardal lle mae 18.4% (1,366) o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Oherwydd y crynhoad o'r safleoedd hyn yn yr ardal hon, a maint y safle CDLI, mae angen cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn unol â TAN 20 a pholisi cynllunio iaith Gymraeg Conwy.

Bydd yr asesiad hwn yn ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y twf tai (35% o'r cynllun cyffredinol) ar yr iaith Gymraeg a'i chymunedau, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i Hen Golwyn, Llysfaen a Bryn y Maen, ond hefyd yr ardaloedd cyfagos a'r effeithiau cronol cyffredinol. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried sut i liniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fwy eang.

Bydd yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn edrych ar y cyfleoedd cyflogaeth sy'n cael eu cynnig yn y cynllun i sicrhau bod y rhain yn cynnig cyfleoedd i bobl leol gael mynediad atynt a sicrhau hefyd bod y cynigion hyn yn helpu i gynnal cymunedau cynaliadwy a gwydn Cymraeg eu hiaith yn yr ardal.

Bydd angen iddo hefyd gynnwys ystyried yr effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal, cysylltu â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y fwrdeistref sirol. Bydd yr ystyriaethau'n cynnwys cyfrwng ieithyddol ysgolion cynradd ac uwchradd, effaith categoreddio iaith ysgolion, ac effaith datblygiad ar leoedd mewn ysgolion a niferoedd cyffredinol, yn ogystal â'r sgil-effeithiau ar gymunedau oherwydd lleoliad ysgolion a phenderfyniadau cohort.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir: Dwyrain

Cyflogaeth Defnydd Cymysg (4.7 Hectar B1, B2 a B8), Gofod Hamdden ac Ysgol Gynradd. Bydd y safle'n cael ei gyflwyno rhwng 2021 a 2027.

Mae De-ddwyrain Abergele yn rhan o brosiect allweddol ym Margen Twf y Gogledd. Cafodd y safle ei neilltuo'n flaenorol yn y CDLI Mabwysiedig ac felly rhoddwyd ystyriaeth ofalus i ail-ddyrannu'r Safle Strategol Allweddol ar gyfer Cyflogaeth defnydd cymysg (4.7 Hectar o B1, B2 a B8) Manwerthu Cyfleus, Rhandiroedd, Gofod Hamdden ac Ysgol Gynradd.

Elfen hollbwysig er mwyn darparu'r safle yw'r capasiti sydd ar gael yn y rhwydwaith priffyrdd a chanol y dref i ddarparu ar gyfer y twf heb orfod gwneud gwelliannau sylweddol i'r seilwaith priffyrdd yng nghanol y dref. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod goleuadau traffig canol y dref wedi cyrraedd eu capasiti a byddai twf pellach a'r traffig cysylltiedig yn andwyol, heb ymyriadau i ganol y dref (e.e. system gylchol neu un ffordd).

Yn Abergele, mae 2,014 yn siarad Cymraeg, sy'n 19.6% o'r boblogaeth, yn ôl Cyfrifiad 2011 ac felly mae gan y dref y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ôl cyngor cymuned yng Nghonwy. Mae Abergele wedi'i nodi fel tref sy'n strategol bwysig i'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Mae'r safle yn agos at ward etholiadol Pensarn lle mae 28.4% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – sy'n ardal â sensitifrwydd ieithyddol. Mae Llanddulas, Rhyd y Foel a Llysfaen hefyd gerllaw, lle mae 19%+ o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Ardal y Cynllun hwn wedi'i lleoli i'r dwyrain ar arfordir Conwy ac oherwydd ei dosbarthiad gofodol, gallai helpu i liniaru rhywfaint o effeithiau'r datblygiad arfaethedig hwn ar gadarnleoedd gwledig a safleoedd eraill â sensitifrwydd ieithyddol y Gymraeg. Fodd bynnag, oherwydd ei fod yn ddatblygiad mawr a phwysigrwydd Abergele a'r cyffiniau, mae potensial i hyn ddenu mewnfuddsoddiad a/neu fudo o'r Dwyrain. Gallai'r cyfleoedd manwerthu a chyflogaeth ddenu siaradwyr Cymraeg o'r cadarnleoedd i Abergele o'r cymunedau gwledig.

Oherwydd maint a graddfa'r safle hwn, mae canllawiau TAN 20 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Byddai hyn yn cyd-fynd â safonau'r iaith Gymraeg ac yn arfer da – bod penderfyniadau polisi arwyddocaol yn destun asesiad o'u heffaith. Bydd hyn yn darparu cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod mesurau lliniaru ar waith er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar y Gymraeg.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig

1. Llanrwst

Er bod 90% o'r datblygiadau wedi'u cynnig ar gyfer yr ardaloedd trefol a restrir uchod, mae 10% wedi'u dyrannu ar gyfer datblygu gwledig. Cynigir bod y mwyafrif o dwf gwledig yn canolbwyntio ar Llanrwst.

Llanrwst yw'r setliad mwyaf a mwyaf cynaliadwy o'r setliadau yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig, tua 13 milltir o setliadau trefol Cyffordd Llandudno a Chonwy. Mae Llanrwst yn setliad sy'n cefnogi'r cymunedau gwledig ehangach yn nhermau cyflogaeth, manwerthu a gwasanaethau cymunedol a chyfleusterau. Mae'n cael ei gwasanaethu'n bennaf gan gefnffordd yr A470, gyda'r A548 a'r B5106 hefyd yn darparu cysylltiadau ffyrdd lleol, ac mae Rheilffordd Dyffryn Conwy yn cysylltu â rhwydwaith rheilffordd strategol yr arfordir.

Er mwyn annog datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy, cynigir safle strategol Llanrwst sy'n cynnwys 200 o dai newydd (y farchnad a fforddiadwy) a mannau hamdden ar hyd yr A470. Bydd tir cyflogaeth gwag ar Safle Diwydiannol Tŷ Gwyn hefyd yn cael ei ddiogelu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Bydd manwerthu cyfleys yn cael ei hyrwyddo hefyd yn Llanrwst, er mwyn cyflawni'r anghenion a nodwyd

Bydd ffin setliad Llanrwst yn cael ei adolygu. Caniateir datblygiadau y tu allan, ond ar ymylon ffin setliad Llanrwst, mewn amgylchiadau eithriadol i gefnogi newidiadau i'r galw cyflogaeth ac i ddarparu lefelau uwch o dai fforddiadwy o hyd at 20 annedd a phan na fydd unrhyw effeithiau annerbyniol.

Mae Llanrwst yn ardal â sensitifrwydd ieithyddol, gyda 61% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae ardal â chanran sylweddol o'r fath o siaradwyr Cymraeg yn cael ei diffinio fel cadarnle'r Gymraeg (Aitchison, J. A Carter, H. (1998)). Defnyddir y Gymraeg o ddydd i ddydd ac mewn bywyd dyddiol a dyma yw'r brif ganolfan i nifer o'r cadarnleoedd Cymraeg eu hiaith gerllaw. Mae'r Gymraeg yn rhan o wead yr ardal ac mae hefyd o bwys strategol i'r polisi cenedlaethol – Cymraeg 2050.

At hynny, mae Llanrwst yn strategol bwysig fel tref. Ar garreg y drws mae llawer o ardaloedd eraill â sensitifrwydd ieithyddol yn y rhanbarth (e.e. Trefriw, Llanddaged, Maenan), mae Llanrwst yn ganolfan gwasanaethau i'r ardaloedd hynny ac yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy yn ehangach.

Yn gryno, mae Llanrwst yn safle strategol pwysig sy'n cyfrannu at strategaeth iaith Gymraeg yr awdurdod a'r strategaeth genedlaethol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae maint y datblygiad tai arfaethedig yn y rhanbarth hwn yn fawr ac mae TAN 20 yn galw am asesiad o'r effaith ar y Gymraeg.

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Gwyddom fod datblygiadau tai mewn ardaloedd â sensitifrwydd ieithyddol o ran y Gymraeg a chadarnleoedd gwledig yn ehangach, yn gallu cael effaith ar brisiau tai ac effeithiau mudo net. Mae'r tai fforddiadwy a fydd yn cael eu darparu ar y safle strategol yn debygol o fod yn tua 40-60 o unedau, ond mae'r niferoedd terfynol yn ddibynnol ar y polisi tai fforddiadwy. Dylid asesu'r rhaglen hon o ran ei photensial i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac atal effeithiau negyddol. Mae'n rhaid i'r asesiad sicrhau ei fod yn cyflawni anghenion siaradwyr yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Bydd angen i'r asesiad o'r effaith ystyried yn ofalus effeithiau posibl y twf tai yn y rhanbarth a sut y gall ddiogelu iechyd yr iaith Gymraeg ynddo.

Fel rhan o'r asesiad hwn, bydd angen asesu'r effeithiau ar fusnesau lleol er mwyn nodi'r effeithiau posibl ar fusnesau presennol a swyddi lleol. Bydd angen mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol. Dylai'r asesiad hwn gynnwys ystyried yr effeithiau ar swyddi i siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i gynnal a gwella'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl.

Dylai'r asesiad fynd i'r afael hefyd â ffyrdd i hyrwyddo a chefnogi cynaliadwyedd a gwydnwch cymunedau yn yr ardal hon yn unol â pholisi cenedlaethol ar greu lleoedd (Polisi Cynllunio Cymru, 2018).


Bydd y cynigion hamdden a manwerthu a gynigir yn y Cynllun yn cael eu hasesu i hyrwyddo eu hargaeledd drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Pentrefi Haen 2 yng Nghonwy wledig

Mae'r rhan fwyaf o'r Prif Bentrefi, Is-Bentrefi a Phentrefannau Haen 2 hefyd wedi'u lleoli yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig gyda lefelau cyflogaeth a thwf tai yn y cymunedau hyn yn gysylltiedig â'u hanghenion o ran datblygiadau economaidd a phreswyl, yn seiliedig ar hierarchaeth y setliad.

Yma mae bro Gymraeg Conwy, lle mae'r mwyafrif o bobl yn siarad Cymraeg ac yma mae'r prif safleoedd â sensitifrwydd ieithyddol sy'n llawer uwch na'r trothwy o 25% o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth (a argymhellir yn adroddiad Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen (2005). Gweler map 6 isod:

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle



Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

Mae Prif Bentrefi, Is-bentrefi a Phentrefannau Haen 2 wedi'u lleoli yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig ac mae llawer o'r rhain yn ardaloedd â sensitifrwydd ieithyddol e.e. Cerrigydrudion (77.2%), Llangernyw (64.4%). Betws yn Rhos (46.4%). Pan siaradir y Gymraeg gan hanner neu fwy o'r boblogaeth, maent yn cael eu hystyried yn gadarnleoedd y Gymraeg, a ddiffinnir gan Aitchinson et al (1998) ac mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd nifer uwch na'r trothwy 25% a nodir yn Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y ffordd ymlaen, ac mae gan y mwyafrif ohonynt nifer uwch na'r ganran genedlaethol o siaradwyr Cymraeg, sef 19%.

Mae'n hollbwysig bod y Prif Bentrefi Haen 2 yn gynaliadwy a gwydn er mwyn sicrhau bod gan y fwrdeistref sirol leoedd cynaliadwy yn unol â chreu lleoedd ym Mholisi Cynllunio Cymru (2018). Mae'r setliadau hyn yn gwasanaethu eu poblogaeth leol yn bennaf ac felly bydd twf lleol ac arallgyfeirio yn cael eu hyrwyddo er mwyn cynnal hunaniaeth gymunedol, diogelu'r iaith Gymraeg ac annog strwythur oedran mwy cytbwys.

Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn datgan y bydd safleoedd a neilltuwyd yn gysylltiedig ag angen lleol ar gyfer datblygiadau economaidd a phreswyl, yn seiliedig ar yr hierarchaeth setliadau. Ni ddarparwyd unrhyw ffigurau ar gyfer datblygiadau newydd yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn datgan na fydd tir yn cael ei neilltuo ar gyfer datblygiadau newydd. Fel arall, bydd agwedd hyblyg yn cael ei hyrwyddo o fewn ffiniau'r setliadau. Mae hyn yn gyson â chanllawiau TAN 6 – cynnig hyblygrwydd mewn cymunedau gwledig.

Bydd cynigion i ehangu mentrau a busnesau newydd yn cael eu cefnogi yn y Pentrefi Haen 2. Bydd agwedd adeiladol yn cael ei mabwysiadu hefyd ar gyfer cynigion datblygiadau amaethyddol, yn arbennig y rhai a gynlluniwyd i gyflawni anghenion arferion ffermio sy'n newid neu sydd eu hangen i gyflawni cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu les newydd. Mabwysiadir agwedd gadarnhaol at drawsnewid adeiladau gwledig ar gyfer eu haildddefnyddio at ddibenion busnes, yn ogystal â mabwysiadu agwedd gadarnhaol at brosiectau arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig.

Yn sgil yr heriau hynny a nodwyd yn y Strategaeth a Ffafrir sy'n wynebu'r ardaloedd gwledig hyn o ganlyniad i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gallai agweddau adeiladol a hyblyg at arallgyfeirio a mentrau newydd ym myd amaeth helpu i gefnogi a hyrwyddo'r cymunedau gwledig hyn.

Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn datgan y gellir caniatáu tai y farchnad agored a thai fforddiadwy o fewn ffiniau setliad ar hap-safleoedd a safleoedd wedi'u neilltuo. Hyfywedd

Crynodeb o gasgliadau'r AEG ar gyfer y pum safle

cynlluniau tai fydd yn penderfynu ar y lefel briodol o dai y farchnad agored a thai cynaliadwy. Bydd cynlluniau o'r fath yn llai ar y cyfan na'r rhai yn y setliadau uwch a byddant wedi'u cyfyngu i 15 uned ac is er mwyn diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol. Gellir caniatáu safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth y tu allan, ond ar ymylon, ffiniau setliad ar raddfa sy'n briodol i swyddogaeth y setliad a phan na fydd unrhyw effeithiau annerbyniol.

O ganlyniad i'r nifer o safleoedd â sensitifrwydd ieithyddol yn yr ardal hon, byddai angen asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gyda mesurau lliniaru pe byddai unrhyw ddatblygiadau yn yr ardal hon.

Ymhlith y mesurau lliniaru y gellir eu hystyried fyddai tai fforddiadwy wedi'u targedu ar gyfer siaradwyr Cymraeg lleol i leihau'r risg o allfudo, yn ogystal â defnyddio cytundebau a106 yn unol â TAN 6 a chreu cyllid ychwanegol i'r cyngor i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a chreu cymunedau gwydn a chynaliadwy o siaradwyr Cymraeg. Gallai mesurau lliniaru gynnwys, ond heb fod wedi'u cyfyngu i: cyrsiau Cymraeg am ddim yn y gymuned, pecynnau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer unrhyw breswylwyr newydd sy'n symud i'r ardal, cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a hamdden cyfrwng Cymraeg yn y gymuned a mwy o wasanaethau yn y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg.